Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Gorfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gynhyrchion plastig untro penodol: ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Yn cau 04 Hydref 2023

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol penodedig? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gan y gallai leihau'r nifer sydd angen mynd drwy'r system gyfiawnder troseddol sydd o bosibl yn ychwanegu at y costau a'r adnoddau gofynnol. Gallai cosb ariannol benodedig gynnig datrysiad cyflym a sicrhau mai dim ond y rheiny sy'n torri'r gyfraith ar sawl achlysur neu ar raddfa fawr fydd yn mynd drwy'r system gyfiawnder.

**Cwestiwn 2. Os defnyddir cosbau ariannol penodedig, rydym yn cynnig y dylid pennu swm o £200. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r swm hwnnw?**

Fel Rhwydwaith, nid oes gennym farn benodol am y cyfanswm cyn belled â'i fod yn ddigon i dalu am unrhyw adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno a gorfodi yn dilyn unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau perthnasol.